


# Cyfarwyddiadau ar gyfer Cyflwyno Data i Gofnodion Amgylchedd Hanesyddol Cymru (CAH)

Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru

Hydref 2022

# Cyfarwyddiadau ar gyfer Cyflwyno Data i Gofnodion Amgylchedd Hanesyddol Cymru (CAH)

**Fersiwn:** 2
**Dyddiad** Hydref 2022
**Dyddiad Adolygu:** Hydref 2023

**Disgrifiad** Bwriad y ddogfen hon yw darparu cyfarwyddyd er mwyn i ddefnyddwyr CAH allu cyflwyno data mewn fformat y gellir ei integreiddio'n rhwydd i'r CAHau rhanbarthol, sydd bellach yn statudol, gan roi ystyriaeth i'r angen i ddarparu fersiynau Cymraeg o rai meysydd mewn mathau penodol o brosiectau yn unol â deddfwriaeth newydd.

Mae'r fersiwn ddiweddaraf hon yn mynd i'r afael â nifer o anghysondebau yn y canllawiau cynharach, ac yn egluro pwyntiau eraill yng ngoleuni'r adborth a dderbyniwyd yn ystod y misoedd ers rhyddhau'r ddogfen.

**Ffynhonnell:** Mae rhywfaint o ddylanwad dogfen ddrafft Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd (YAG) o 2014 *Canllawiau i Gontractwyr ar Gofnodion Amgylchedd Hanesyddol* ar y ddogfen hon, ond mae wedi cael ei hadolygu a'i diweddaru'n sylweddol gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent (YAMG), ar y cyd ag Ymddiriedolaethau Archaeolegol eraill yng Nghymru, Cadw a CBHC, er mwyn adlewyrchu statws statudol CAHau Cymru yn sgil Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016.

**Fformat:** Dogfen Word

**Statws:** Gweithredol. Bydd unrhyw waith a gyfyd o brosiectau a gomisiynwyd ers mis Hydref 2018 yn ddarostyngedig i'r ddogfen canllawiau cyflwyno data CAH berthnasol.

**Yn berthnasol i:** CAHau Cymru

**Gweithdrefn ddiweddaru:** I'w diweddaru yn ôl yr angen gan yr Archaeolegwyr CAH yn Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru

**Nifer y tudalennau:** 27 tudalen, yn cynnwys Atodiad A – Ffurflen Cyflwyno Gwybodaeth CAH Cymru

**Lluniwr y ddogfen gyfredol:** Charina Jones, YAMG, mewn cydweithrediad â staff CAH Cymru

**Diweddarwyd y tro diwethaf gan:** Calli Rouse, YAMG

**Perchennog:** Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru

**Cysylltu:** Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys (YACP), Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed (YAD), Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent (YAMG), Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd (YAG) (manylion cyswllt yn Adran 7)

**Amodau mynediad:** Mae'r ddogfen hon ar gael i'r cyhoedd.

Mae delweddau o fapiau a ddefnyddir yn y ddogfen hon dan © Hawlfraint y Goron ac YAMG (hawl dros gronfeydd data ac IPR).

# Cyfarwyddiadau ar gyfer Cyflwyno Data i Gofnodion Amgylchedd Hanesyddol Cymru (CAH)

## Cynnwys


**1. Cyflwyniad a Phwrpas 4**
**2. Gwybodaeth a gasglwyd drwy ddulliau anffurfiol 6**
2.1. Ffurflen Cyflwyno Gwybodaeth CAH 6
**3. Data a gynhyrchir drwy ddull ffurfiol – trosolwg 7**
**4. Gofynion Penodol Cyflwyno Data i CAHau 9**
4.1. Gofynion Iaith 9
4.2. Crynodebau 10
4.3. Adroddiadau ar Brosiectau 11
4.4. Data Prosiectau 13
4.5. Ffotograffau 16
4.6. Polygon(au) Digwyddiadau 17
4.7. Polygon(au) Asedau Hanesyddol 17
4.8. Metaddata Ychwanegol 19
4.9. Data sy'n addas i'w hychwanegu at y Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol 19
**5. Safonau Data Amgylchedd Hanesyddol a Thesawrysau i Gymru 20**
5.1. Defnyddio heritagedata.org 20
5.2. Safonau Archifo 21
**6. Cytundeb a Hawlfraint Data 23**
6.1. Atgynhyrchu data dan Hawlfraint CAH 23
6.2. Cytundeb Data 23
6.3. Atgynhyrchu data nad yw dan Hawlfraint CAH 24
**7. Manylion Cyswllt 25**
**8. Rhestr termau a chysyniadau 26**

**Atodiad A - Ffurflen Gyflwyno Gwybodaeth CAH CYMRU 28**
**Atodiad B – Data sy'n addas i'w hychwanegu at y Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol 30**


## Ffigurau


Ffigur 1. Trosolwg o ofynion cyflwyno data CAH yn ôl y math o brosiect 8
Ffigur 2. Gwybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer cofnodion asedau hanesyddol 13
Ffigur 3. Gwybodaeth ychwanegol y gellir ei chofnodi ar gyfer asedau hanesyddol 15
Ffigur 4. Gwybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer darluniau gofodol o brosiectau archaeolegol 17
Ffigur 5. Enghraifft o bolygon digwyddiad yn dangos ardal arolwg geoffisegol ar gyfer Castle Field 17
Ffigur 6. Gwybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer darluniau gofodol o asedau hanesyddol 18
Ffigur 7. Enghraifft o bolygon safle yn dangos ardal Deri-du House a Thir Amgaeëdig ar fap OS Argraffiad 1af. 18
Ffigur 8. Dull o chwilio am gyfieithiadau o dermau yn heritagedata.org 21

## 1. Cyflwyniad a Phwrpas

Mae'r wybodaeth yn CAHau Cymru wedi ei chasglu o nifer o wahanol ffynonellau. Weithiau bydd data'n cael ei chyflwyno'n achlysurol, gan bobl sydd wrthi'n gwneud eu gwaith ymchwil eu hunain, neu gan unigolion sydd wedi canfod rhywbeth o ddiddordeb archaeolegol ac yn dymuno mwy o wybodaeth. Fodd bynnag, cynhyrchir y *rhan fwyaf* o wybodaeth newydd CAH gan brosiectau penodol a gwaith archaeolegol proffesiynol a wneir ledled Cymru.

Nod y canllawiau hyn yw rhoi cymorth i unrhyw un sy'n creu gwybodaeth am amgylchedd hanesyddol Cymru er mwyn ei chyflwyno i'r CAHau. Mae'n arfer da cyflwyno'r wybodaeth hon i'r CAH rhanbarthol perthnasol ar ffurf:

- sy'n cydymffurfio â safonau cenedlaethol ar gyfer rheoli data
- a fydd yn ei gwneud yn hygyrch i gynulleidfa eang
- hawdd ei rheoli, ei chynnal a'i chadw, ac sy'n rhwydd ac yn fwy cost-effeithiol i'w ychwanegu ati.

Mae'n hanfodol darparu gwybodaeth newydd neu sydd wedi'i diweddaru i'r CAH er mwyn cynorthwyo'r gwaith ymchwil, gwarchod a chadwraeth parhaus yr amgylchedd hanesyddol Cymru. Mae'r CAHau statudol yn sail i'r holl waith archaeolegol a wneir yng Nghymru ac yn darparu pwynt mynediad at gyfoeth o wybodaeth bwysig.

Mae'n rhaid i'r rhai sy'n gwneud gwaith fel rhan o'r broses gynllunio sicrhau fod gwybodaeth yn cael ei chyflwyno yn unol â'r ddogfen hon a'r canllawiau cysylltiedig. Gofynnir i'r rhai sy'n gweithio'r *tu allan* i'r broses gynllunio ystyried y cyfarwyddyd hwn wrth baratoi data ar gyfer y CAHau.

Gofynnir i ddefnyddwyr CAH ddarparu gwybodaeth newydd neu wedi'i diweddaru a gynhyrchwyd yn sgil defnyddio neu ddadansoddi data CAH i'r cofnod perthnasol o fewn chwe mis o gwblhau'r prosiect neu o fewn amser y cytunwyd arno ymlaen llaw â staff CAH[1]. Mae cyflwyno gwybodaeth neu ddata wedi'u diweddaru i'r CAH yn un o'r amodau yn Nhelerau ac Amodau Mynediad y cofnod. Isod yn Adran 3 ceir crynodeb o'r wybodaeth y mae gofyn ei chyflwyno.

Ac eithrio gwybodaeth sy'n ymwneud â materion morwrol, **nid** yw Cymru'n cymryd rhan yn y fersiwn gyfredol o beirianwaith OASIS ar gyfer adrodd ar wybodaeth a'i rhoi ar gadw (https://oasis.ac.uk).

Adeg y cyflwyno bydd cyfranwyr CAH yn cael y cyfle i lofnodi Cytundeb Cyflwyno Data (os nad oes un wedi'i gyflwyno'n flaenorol). Wrth lofnodi Cytundeb Cyflwyno Data, bydd cyfranwyr CAH yn nodi'n fanwl sut y byddent yn dymuno neu ddim yn dymuno i'w data gael ei ddefnyddio gan y CAH. Gweler Adran 6 isod am ragor o fanylion.

[1] Eitem 10 *'Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru Polisi Mynediad ac Adennill Costau*
https://www.archwilio.org.uk/arch/pdfs/WATsAccessandCostRecoveryPolicy2017__v3%204.pdf

Mae staff CAH yn hapus i drafod unrhyw ymholiadau ynghylch darparu gwybodaeth fel y nodir isod, neu ynghylch y fformatau gofynnol. Rydym yn croesawu adroddiadau achlysurol am safleoedd newydd, yn ogystal â chywiriadau a gwybodaeth ychwanegol am gofnodion sydd yno eisoes. Mae'n werth nodi hefyd mai dim ond yr wybodaeth orau sydd ar gael ar adeg benodol y gall y CAHau ei chynnwys, felly mae pob cyfraniad yn bwysig. Gweler Adran 7 am fanylion cyswllt.

At ddibenion y ddogfen hon, diffinnir prosiectau a chyfranwyr a ariennir fel a ganlyn:

- prosiectau archaeolegol masnachol
- gwaith prosiect sy'n derbyn cymorth grant a wneir ar ran y Llywodraeth genedlaethol a llywodraeth lleol
- prosiectau ymchwil prifysgolion/academaidd a ariennir yn allanol
- prosiectau sy'n derbyn arian o Gronfa Dreftadaeth y Loteri
- gwaith sy'n derbyn grant Ewropeaidd
- cyrff cyhoeddus lleol a chenedlaethol
- Ymddiriedolaethau a thirfeddianwyr masnachol
- corfforaethau
- sefydliadau masnachol
- gwaith a ariennir drwy grantiau eraill neu incwm a godwyd.

Diffinnir prosiectau a chyfranwyr nad ydynt yn cael eu hariannu fel a ganlyn:

- aelodau o'r cyhoedd
- tirfeddianwyr preifat (datblygiadau nad ydynt yn ymwneud â chynllunio)
- ymchwilwyr preifat
- ysgolion
- grwpiau cymunedol a gwirfoddol nad ydynt yn cael eu hariannu
- myfyrwyr

## 2. Gwybodaeth a gasglwyd drwy ddulliau anffurfiol

Mae'r adran hon yn berthnasol i ddefnyddwyr CAH sy'n cyflwyno gwybodaeth *nad* yw wedi'i chasglu fel rhan o brosiect ffurfiol. Ni ddylid defnyddio'r dulliau hyn o gyflwyno ar gyfer gwaith ymchwil mawr na phrosiectau maes ac **ni chaniateir** eu defnyddio gan brosiectau a ariennir (dylai prosiectau a ariennir ddilyn y gofynion dan Adrannau 3 a 4).

<u>Bydd gofyn i gyfranwyr penodol ddarparu gwybodaeth ddwyieithog, fel y manylir yn Adran 4 isod.</u>

### 2.1 Ffurflen Cyflwyno Gwybodaeth CAH

Caiff rhai cyfranwyr i'r CAH, megis unigolion, gwirfoddolwyr a grwpiau cymunedol, gyflwyno gwybodaeth am asedau hanesyddol unigol yn anffurfiol. Mae'r CAHau yn annog defnyddio Ffurflen Cyflwyno Gwybodaeth CAH[2], yn ddelfrydol ar ffurf ddigidol, er mwyn i'r staff CAH allu diweddaru'r CAH yn gyflym gan ddefnyddio'r wybodaeth allweddol a gofnodwyd ar y ffurflen. Byddem hefyd yn hapus i dderbyn y ffurflen gan ein partneriaid rhannu data i roi gwybod i ni am gywiriadau achlysurol neu wybodaeth newydd (yn amodol ar ofynion dwyieithog ar gyfer cyrff swyddogol, gweler Adran 4.1 isod).

Dyma'r math o wybodaeth y byddem yn disgwyl iddi gael ei chyflwyno gan ddefnyddio'r ffurflen:

- gwybodaeth ychwanegol am ased hanesyddol sy'n bodoli eisoes
- gwybodaeth wedi'i chywiro am ased hanesyddol sy'n bodoli eisoes, gyda thystiolaeth i'w chefnogi
- ffotograffau neu wybodaeth yn ymwneud ag ased hanesyddol oedd heb ei gofnodi'n flaenorol. Ar gyfer ffotograffau, dylid darparu'r wybodaeth a'r fformat sylfaenol a nodir yn Adran 4.5.

Ar gyfer talpiau mawr o wybodaeth, gofynnir i'r rhai hynny sy'n cyflwyno gwybodaeth, hyd yn oed yn anffurfiol, ddefnyddio strwythur cronfa ddata a dilyn y gofynion ar gyfer cyflwyno data fel y disgrifir yn Adran 4 isod. Mae modd darparu templed ar gais.

[2] Gweler Atodiad A i'r ddogfen hon.

## 3. Data a gynhyrchir drwy ddull ffurfiol – trosolwg

Isod, fe welwch restr wirio ar gyfer y wybodaeth y dylid ei chyflwyno i'r CAHau a gynhyrchir drwy ddull a ariennir neu gan gyfrannwr a ariennir. Dylai cyfranwyr nad ydynt yn cael eu hariannu ond sy'n cyflwyno swm sylweddol o ddata, fel y nodi yn Adran 2, hefyd ddilyn y canllawiau arfer da ar gyfer cyfranwyr a ariennir a geir yn Adrannau 3 a 4.

Mae'n rhaid i brosiectau a ariennir gyflwyno'r elfennau a restrir isod, os ydynt yn berthnasol i'r math o brosiect dan sylw. Mae Adran 4 yn rhoi'r manylion ar gyfer fformat data, safonau a chanllawiau cofnodi, a gofynion metadata sylfaenol ar gyfer pob elfen. Dylid anfon yr holl wybodaeth i'r CAH perthnasol yn ddigidol trwy e-bost neu wasanaeth rhannu ffeiliau[3] oni wnaed trefniadau gwahanol gyda'r staff.

### Rhestr wirio cyflwyno data CAH

- ✓ Adroddiad digidol
- ✓ Gwybodaeth ddwyieithog, fel y disgrifir isod
- ✓ Manylion cyflwyno i archifau
- ✓ Ffotograffau digidol, os ydynt ar gael
- ✓ Polygon(au) digwyddiadau yn dangos ardal yr astudiaeth / ardal y prosiect
- ✓ Polygon(au) Asedau Hanesyddol yn dangos maint yr adnoddau lle maent yn rhan o gylch gorchwyl y prosiect
- ✓ Cronfa ddata prosiect lle bo'n berthnasol e.e. Tabl MS Excel neu GIS
- ✓ Ffurflen Cyflwyno Gwybodaeth, lle bo'n berthnasol
- ✓ Metaddata
- ✓ Cytundeb Cyflwyno Data (Cysylltwch â'r staff CAH perthnasol i gael mwy o wybodaeth)
- ✓ Rhybudd Hawlfraint neu ffurflen Eithrio Data, lle bo'n berthnasol

Mae Ffigur 1 isod yn rhoi trosolwg o'r gofynion ar gyfer rhai mathau o brosiectau**. Nid yw'n rhestr yn gyflawn, felly cysylltwch â'r CAH perthnasol i gael gwybodaeth os nad yw math eich prosiect neu waith chi wedi'i gynrychioli yn y tabl. Dylai cyfranwyr gyfeirio at y manylion llawn yn yr adrannau perthnasol isod ynghylch fformat a chynnwys.**

[3] Gwiriwch p'un a yw'r HER rydych chi'n cyfatebol â defnyddio'r gwasanaethau hyn

| Elfen o'r prosiect | Cyfeiriwch at Adran | Asesiad Desg | Arolwg Maes /Ymweliad Safle | Prosiect Ymchwil a Ariennir | Gorchwyl Gwylio | Gwerthusiad/ Twll Prawf | Cloddiad | Arolwg Cyflwr | Cynllun Rheoli | Arolwg Tirwedd | Arolwg Geoffisegol | Arolwg Adeilad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adroddiad Digidol** | 4.2 | ✓ | ✓ | ✓ os gwnaed hyn | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ os gwnaed hyn | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Crynodeb Dwyieithog o'r Adroddiad** | 4.1 | ✓ | ✓ | ✓ os gwnaed hyn | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ os gwnaed hyn | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Manylion archifo** | 4.2 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ os gwnaed hyn | ✓ os yw'n berthnasol | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Ffotograffau digidol** cysylltwch â'r CAH perthnasol ynghylch yr ansawdd gofynnol | 4.4 | ✓ os gwnaed hyn | ✓ | ✓ os gwnaed hyn | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ os gwnaed hyn | ✓ | ✓ os gwnaed hyn | ✓ |
| **Ffeil ddigidol yn dangos maint gofodol y gwaith** | 4.5 | ✓ os gwnaed hyn | ✓ os gwnaed hyn | ✓ os gwnaed hyn | ✓ os gwnaed hyn | ✓ os gwnaed hyn | ✓ os gwnaed hyn | ✓ os gwnaed hyn | ✓ os gwnaed hyn | ✓ os gwnaed hyn | ✓ | ✓ os gwnaed hyn |
| **Cronfa ddata/ tabl prosiect digidol Cysylltwch â'r CAH perthnasol ynghylch y mathau o ffeiliau** | 4.3 | ✓ os gwnaed hyn | ✓ os gwnaed hyn | ✓ os gwnaed hyn | ✓ os gwnaed hyn | ✓ os gwnaed hyn | ✓ os gwnaed hyn | ✓ os gwnaed hyn | ✓ os gwnaed hyn | ✓ os gwnaed hyn | ✓ os gwnaed hyn | ✓ os gwnaed hyn |
| **Crynodeb dwyieithog o gofnodion safle newydd** | 4.1 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Polygon ased hanesyddol digidol** | 4.6 | ✓ os gwnaed hyn | ✓ os gwnaed hyn | ✓ os gwnaed hyn | ✓ os gwnaed hyn | ✓ os gwnaed hyn | ✓ os gwnaed hyn | ✓ os gwnaed hyn | ✓ os gwnaed hyn | ✓ os gwnaed hyn | ✓ os gwnaed hyn | ✓ os gwnaed hyn |
| **Cytundeb Cyflwyno Data** | 6.2 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

**Ffigur 1. Trosolwg o ofynion cyflwyno data CAH yn ôl y math o brosiect**

## 4 Gofynion Penodol Cyflwyno Data i CAHau

### 4.1 Gofynion Iaith

Yn unol â *Rheoliadau Safonau'r Iaith Gymraeg (Rhif 1) 2015*[4], a gwaith cydymffurfio cysylltiedig sy'n berthnasol i gyflawni gwasanaeth CAH, rhaid i'r holl gofnodion **newydd** sy'n cael eu creu yn y CAH o'r 1af o Ebrill 2016 fod â disgrifiad cryno yn Gymraeg a Saesneg. O ganlyniad, rhaid i'r **holl ddata ac adroddiadau newydd a gyflwynir i'r CAH** gael eu cyflwyno gyda thestunau cryno ac enwau asedau/digwyddiadau wedi'u cyfieithu'n briodol yn unol â'r canllawiau isod.

Mae'r gofyniad yn berthnasol i:

- **gyrff ac awdurdodau cyhoeddus lleol a chenedlaethol**
- **gwaith masnachol a wneir fel rhan o'r broses gynllunio**
- **prosiectau cydweithredol prifysgolion a thraws-sector**
- **Prosiectau HLF a phrosiectau eraill** (gan gynnwys rhai dan arweiniad y gymuned) **a ariennir gan sefydliadau sy'n dyfarnu grantiau a chyrff cyllido** lle dylid cael prisiadau ar gyfer gwasanaeth cyfieithu ar gyfer y prosiect.[5]

Caiff ymchwilwyr preifat, ysgolion, y cyhoedd a grwpiau cymunedol lleol na chânt eu hariannu eu hannog i gyflwyno yn iaith eu dewis. Nid oes rhaid i'r data a gyflwynir gan y grwpiau hyn fod yn ddwyieithog. Fodd bynnag, os gall y defnyddwyr hyn roi gwybodaeth ddwyieithog caiff hyn groeso mawr gan CAH Cymru.

Lle bo'r gofyniad iaith yn berthnasol, os byddwch yn paratoi gwybodaeth yn y Saesneg bydd rhaid darparu crynodeb ac enw yn y Gymraeg ar gyfer:

- pob ased hanesyddol *newydd*
- *pob* darn o waith archaeolegol (Digwyddiad[6]) a wneir.

Lle bo'r gofyniad iaith yn berthnasol, os byddwch yn paratoi gwybodaeth yn y Gymraeg bydd rhaid darparu crynodeb ac enw yn y Saesneg ar gyfer:

- pob ased hanesyddol *newydd*
- *pob* darn o waith archaeolegol (Digwyddiad) a wneir.

[4] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/996/schedule/1/made

[5] Mae'n bosib y bydd Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru yn gallu darparu cymorth i fodloni'r gofyniad hwn i ymchwilwyr, ysgolion, grwpiau cymunedol lleol ac aelodau eraill o'r cyhoedd sy'n gwneud gwaith nad yw'n cael ei ariannu.. Fodd bynnag, bydd hyn yn ddibynnol ar y llywodraeth yn sicrhau bod adnoddau ar gael i'r Ymddiriedolaethau at y cyfryw ddibenion. Ni allwn ymestyn y cymorth hwn i gyfranwyr y caiff eu gofynion eu hariannu, er enghraifft cyrff ac awdurdodau cyhoeddus lleol a chenedlaethol, unigolion neu sefydliadau (yn cynnwys ymddiriedolaethau, cwmnïau, partneriaethau neu brifysgolion) sy'n gwneud gwaith ymchwil neu fasnachol a gaiff ei ariannu ac a wneir fel rhan o'r broses gynllunio.

[6] Mae Gweithgor Cymru ar gyfer Safonau Data ar yr Amgylchedd Hanesyddol yn diffinio *Digwyddiad* fel unrhyw ddarn o waith archaeolegol, boed yn ymwthiol (e.e. Cloddiad), anymwthiol (e.e. Arolwg Maes), neu reolaethol (*e.e.* cynllun rheoli neu reoli llystyfiant) ei natur.

**Dylid cynnwys enwau a chrynodebau dwyieithog ar gyfer gwaith archaeolegol (Digwyddiadau) yn yr adroddiad a gyflwynir ar y gwaith i'r awdurdod cynllunio perthnasol a'r CAH. Dylid darparu enwau a chrynodebau dwyieithog ar gyfer asedau hanesyddol *newydd* hefyd.**

Dylai'r testun gael ei gyfieithu i safon briodol, yn ddelfrydol gan gyfieithydd â phrofiad o weithio yn y sector amgylchedd hanesyddol neu sy'n gyfarwydd â therminoleg y sector. **Ni chaiff** testun a gyfieithwyd yn defnyddio rhaglenni neu wasanaethau cyfieithu awtomatig ei dderbyn.

Mae rhestr o gyfieithwyr ar gael ar https://www.cyfieithwyr.cymru/cy/dod-o-hyd-i-gyfieithydd - byddai'n well cael cyfieithydd sy'n aelod o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru. Mae termau Cymraeg cydnabyddedig o *Fathau o Henebion, Digwyddiadau, Cyfnodau* archaeolegol a mwy, a fydd o gymorth wrth lunio crynodebau Cymraeg, i'w cael o dan y geiriau cyfatebol Saesneg yn y thesawrysau perthnasol a'r rhestri geiriau ar gyfer gwybodaeth am yr amgylchedd hanesyddol yn http://heritagedata.org/live/schemes.html fel y manylir yn Adran 5.

**Fel arfer, ni fydd y CAHau yn derbyn adroddiadau sy'n bodloni'r meini prawf cyllido ond sydd wedi'u cyflwyno heb grynodebau dwyieithog. Mewn cyd-destun rheoli cynllunio archaeolegol, y fersiwn derfynol a gymeradwywyd gan berson yn gweithredu fel ymgynghorydd archaeolegol ar ran awdurdod cynllunio lleol neu awdurdod arall ddylai hon fod.[7] Ni fydd fersiynau ar wahân o adroddiadau ar gyfer adneuo CAH yn cael eu derbyn.**

## 4.2 Crynodebau

Mae'n bwysig fod crynodebau'n cael eu creu yn unol â'r canllawiau isod, er mwyn sicrhau eu bod yn hwylus ar gyfer pob defnyddiwr CAH. Cysylltwch â'r CAH perthnasol os oes gennych unrhyw bryder ynghylch hyn.

### *Digwyddiadau Archaeolegol*

Dylai'r crynodebau, a ddylai, fel canllaw, fod oddeutu 100-250 o eiriau ar gyfartaledd, gan ddibynnu ar faint a chymhlethdod y gwaith a wnaed, gyfeirio at yr isod fel canllaw i'w crynhoi. Byddai'n well cyfieithu'r crynodeb gweithredol yn achos adroddiad prosiect, fodd bynnag, ceir rhai esiamplau eraill isod ar gyfer eu cymharu:

Dylai crynodebau o ddigwyddiadau roi sylw i'r cwestiynau hyn:

- Pwy wnaeth y gwaith?
- Gan bwy y cafodd ei gomisiynu? (dim enwau personol)
- Pa bryd wnaed y gwaith?
- Ble gwnaed y gwaith?
- Pam wnaed y gwaith?

[7] Gweler *Standard and guidance for archaeological advice by historic environment services* Sefydliad Siartredig yr Archeolegwyr https://www.archaeologists.net/sites/default/files/CIfAS%26GArchadvice_4.pdf (diweddariad diwethaf, Rhagfyr 2014) yn ogystal â gofynion cynllunio archeolegol lle cânt eu cofnodi: Ar gyfer YAMG, gweler http://www.ggat.org.uk/archplan/downloads/Archaeological%20Report%20Monitoring%20Form.pdf. Ar gyfer YAG, mae Gwasanaeth Cynllunio Archaeolegol Gwynedd yn cyflawni'r swyddogaeth hon. Ewch i http://www.heneb.co.uk/newplanning.html am ragor o wybodaeth.

- Pa waith a wnaed?
- Beth oedd canlyniadau'r gwaith?
- Beth oedd y casgliadau? (os oedd rhai)

Os ydych chi angen crynodeb enghreifftiol, cysylltwch â'r CAH perthnasol.

***Asedau Hanesyddol***

Nid oes angen i grynodebau asedau hanesyddol fod yn gymhleth, a byddant yn adlewyrchu'r wybodaeth sydd ar gael ar gyfer bob ased. Caiff y crynodebau fod yn hyd at 100 o eiriau, yn ddibynnol ar faint a chymhlethdod yr ased, a gellir cynnwys y wybodaeth a ganlyn lle mae'n hysbys/briodol:

- Math a Chyfnod yr ased
- Lleoliad yr ased
- Natur yr hyn a ddarganfuwyd (os yw'n berthnasol)
- Dull a deunydd y gwaith adeiladu (os yw'n hysbys)
- Cyfeiriad at unrhyw asedau neu arteffactau cysylltiedig hysbys
- Dehongliadau posib (os yw'n berthnasol)
- Nodweddion neu gysylltiadau arwyddocaol, a'u maint a siâp (lle bônt yn berthnasol)

Os ydych chi angen crynodeb enghreifftiol, cysylltwch â'r CAH perthnasol.

### 4.3 Adroddiadau ar Brosiectau

<u>Wedi iddynt gael eu cymeradwyo gan guradur archaeolegol</u>, rhaid i adroddiadau gael eu cyflwyno i'r CAH, lle bo'n berthnasol ac yn unol â'r safonau a nodir yn y ddogfen hon. Dylent fod ar ffurf PDF sy'n addas ar gyfer eu dosbarthu (nid yw ffurf PDF/A yn dderbyniol gan mai ffurf archifo yw hon). Gellir derbyn dogfennau Word hefyd.

**Ni** ddylai'r PDF a gyflwynir i'r CAH perthnasol gynnwys unrhyw gyfyngiadau diogelwch neu fynediad, megis cyfrineiriau, neu gyfyngiadau o ran argraffu, cadw copïo a gweld y ddogfen. Bydd y cyfyngiadau hyn yn golygu na fydd modd rhannu'r ddogfen, na chreu copïau diogelwch a chopïau wrth gefn .

Mae'r CAH yn fodlon derbyn adroddiadau PDF trwy e-bost, ar gyfryngau y mae modd eu tynnu megis cofau bach neu drwy wasanaeth lletya ffeiliau megis Dropbox. Mae gan bob CAH wahanol ofynion; mae rhai ohonynt yn derbyn copïau papur a CDs neu DVDs, ond mae eraill yn gofyn mai copïau digidol yn unig a gyflwynir. Dylech gysylltu'n uniongyrchol â'r CAHau i gadarnhau'r dull y maent yn ei ffafrio ar gyfer danfon adroddiadau.

Mae'n bwysig bod yn rhaid i bob adroddiad gydymffurfio â meini prawf Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr (CIfA) (gweler https://www.archaeologists.net/codes/cifa). Os ydynt wedi'u cynhyrchu fel rhan o'r broses gynllunio, rhaid iddynt hefyd gydymffurfio â'r gofynion a osodir gan ymgynghorydd

cynllunio archaeolegol y prosiect a'r canllawiau cynllunio archaeolegol rhanbarthol lle maent ar gael.[8] Bydd adroddiadau nad ydynt yn bodloni safonau CIfA perthnasol y prosiect yn cael eu gwrthod gan y CAH. Os na chyflwynir adroddiad i'r CAH, ystyrir hynny'n achos o dorri Cod Ymddygiad CIfA a bydd yn arwain at hysbysu'r CIfa o dan y Rheoliadau ar gyfer Ymddygiad Proffesiynol, sydd i'w gweld yn https://www.archaeologists.net/sites/default/files/Regulations%20for%20professional%20conduct.pdf.

Yn ychwanegol i feini prawf y CIfA, disgwylir i bob adroddiad a gyflwynir i'r CAH perthnasol gynnwys:

| Elfen yr Adroddiad | Sylw |
|---|---|
| Cyfeirnod Ymholiad CAH[9] | gorfodol ar gyfer prosiectau masnachol |
| Rhif digwyddiad ar gyfer y prosiect a ddarperir gan CAH ar gais | gorfodol ar gyfer prosiectau masnachol |
| Crynodebau ac enwau safleoedd dwyieithog | Gorfodol ar gyfer pob prosiect sy'n bodloni'r meini prawf cyllido |
| Rhifau derbynodi ar gyfer archif y prosiect gan ystorfa archifau achrededig megis y Cofnodion Henebion Cenedlaethol a/neu amgueddfa berthnasol | Pan fo hyn ar gael – os caiff rhifau derbynodi eu aseinio ar ôl ei roi ar gadw, byddai'r CAHau yn falch o gael eu hysbysu o'r manylion |
| Awdur/awduron yr adroddiad, a manylion y cwmni/sefydliad lle bo'n briodol | gorfodol ar gyfer pob prosiect |
| Dyddiad cwblhau'r adroddiad | gorfodol ar gyfer pob prosiect |
| Dyddiad dechrau a gorffen y Digwyddiad | gorfodol ar gyfer pob prosiect |
| Cyfeirnod Grid Cenedlaethol manwl gywir ar gyfer canolbwynt lleoliad y prosiect (lleiafswm o 6 ffigur) | gorfodol ar gyfer prosiectau masnachol |

**Sylwer nad yw cymeradwyaeth gan ymgynghorydd archaeolegol yn golygu y caiff adroddiad ei roi i gadw yn y CAH**

8 Am YAMG Archaeological Report Monitoring Form a Notes & Guidance for WSI and PD
9 Caiff cyfeirnodau eu haseinio i bob ymholiad CAH

## 4.4 Data Prosiect

Lle caiff ei chasglu fel rhan o brosiect (e.e. arolwg maes neu asesiad wrth ddesg), rhaid cyflwyno i'r CAH wybodaeth am unrhyw asedau hanesyddol newydd neu sydd wedi'u diweddaru, yn ddelfrydol ar ffurf cronfa ddata, taenlen neu ddata ar ffurf dablaidd mewn fformat digidol a fydd yn cydymffurfio â gofynion staff CAH ac yn cynnwys yr elfennau a ddangosir yn y tabl(au) isod. Byddai cyflwyniad gwybodaeth ynglŷn â'r Digwyddiad ei hun ar ffurf debyg hefyd yn cael ei groesawu. Mae gwybodaeth **orfodol** wedi'i hamlygu mewn print trwm. Dylid defnyddio terminoleg reoledig ar gyfer nifer o feysydd (a amlygir yn y tablau isod). A fyddech cystal â throi at Adran 5 ar gyfer manylion y thesawrysau a gymeradwywyd ar gyfer cofnodion yng Nghymru.

**Rhaid cyflwyno gwybodaeth gryno am safleoedd newydd yn Gymraeg a Saesneg fel y manylir yn 4.1 uchod.**

| **Enw maes CAH** | **Diffiniad o'r maes** (ar gyfer y meysydd sydd wedi'u lliwio'n biws, rhaid defnyddio'r termau rheoledig sydd ar gael yn heritagedata.org) | |
|---|---|---|
| | **ASED HANESYDDOL** | **DIGWYDDIAD** |
| **UID/PRN yr Ased Hanesyddol** | Rhif adnabod unigryw y cofnod (Prif Gyfeirnod)[10]. | |
| **Enw Saesneg y Safle** | Yr enw Saesneg a roddwyd i ased hanesyddol. Defnyddiwch y fformat priodol ar gyfer pob CAH :<br>YACP: *'Lleoliad, Math'* e.e. Bridgend, Mynydd Ddu, Cairn.<br>YAD: Enw'r adeilad neu'r strwythur os oes un yn bodoli<br>YAMG: *'Math, Lleoliad'* e.e. Cairn, Mynydd Ddu, Pen-y-bont ar Ogwr<br>YAG: *'Math, Lleoliad'* e.e. Carnedd, Mynydd Ddu<br>PAN FO'R ENW A DDERBYNNIR YN UNIAITH YN UNIG PEIDIWCH Â CHYFIEITHU | Y cyfeiriad Saesneg lle digwyddodd y Digwyddiad. Defnyddiwch y fformat priodol ar gyfer pob CAH:<br>YAMG: Gerhynt Quarry, Beddgelert<br>YAG: Gerhynt Quarry, Beddgelert: Gorchwyl Gwylio ac Ymweliad Safle<br>YACP: Beddgelert, Gerhynt Quarry, Gorchwyl Gwylio ac Ymweliad Safle, 2017<br>YAD: Gerhynt Quarry, Beddgelert: Gorchwyl Gwylio ac Ymweliad Safle, 2017<br>PAN FO'R ENW A DDERBYNNIR YN UNIAITH YN UNIG PEIDIWCH Â CHYFIEITHU |
| **Enw Cymraeg y Safle** | Yr enw Cymraeg a roddir i ased hanesyddol. Dylai cyfieithiadau o'r Saesneg ddilyn yr un fformat a nodir uchod.<br>PAN FO'R ENW A DDERBYNNIR YN UNIAITH YN UNIG PEIDIWCH Â CHYFIEITHU | Y cyfeiriad yn Gymraeg lle digwyddodd y Digwyddiad. Dylai cyfieithiadau o'r Saesneg ddilyn yr un fformat a nodir uchod.<br>PAN FO'R ENW A DDERBYNNIR YN UNIAITH YN UNIG PEIDIWCH Â CHYFIEITHU |
| **Crynodeb Saesneg** | Crynodeb neu ddisgrifiad byr yn Saesneg o'r safle/digwyddiad, yn dilyn y fformat yn Adran 4.2 | |
| **Crynodeb Cymraeg** | Crynodeb neu ddisgrifiad byr yn Gymraeg o'r safle/digwyddiad, yn dilyn y fformat yn Adran 4.2 | |
| **Disgrifiad** | Dylai'r disgrifiad gynnwys yr isod: | |

[10] Mae PRNs newydd ar gael gan staff WAT HER ar gais - rydym yn annog y rhai sy'n creu cofnodion newydd i neilltuo PRN cyn cyflwyno data.

| | | |
|---|---|---|
| | Beth yw'r safle; lle mae'r safle; manylion y gwaith adeiladu/gwneuthuriad; unrhyw nodiadau arwyddocaol, e.e. pensaer; pwysigrwydd; datganiad o gyflwr; datganiad o ddarganfyddiaeth' unrhyw ddehongliadau; cynnwys cyfeiriadau at wybodaeth, ar y ffurf 'Awdur, Blwyddyn'. | |
| **Cyfeirnod Grid Cenedlaethol** | Cyfeirnod Grid Cenedlaethol yr Arolwg Ordnans. Dylai tafluniad yr OSGB36 gael ei ddefnyddio os yn bosib. | |
| **Dwyreiniad** | Cyfesuryn grid chwe ffigwr sydd â wnelo â'r cyfesuryn Dwyreiniad neu x | |
| **Gogleddiad** | Cyfesuryn grid chwe ffigwr sydd â wnelo â'r cyfesuryn Gogleddiad neu y | |
| Cymhwysydd Cyfeirnod Grid Cenedlaethol | Manylion sut mae a wnelo'r Cyfeirnod Grid Cenedlaethol â'r safle - gweler y rhestr terminoleg | |
| Tarddiad y Cyfeirnod Grid Cenedlaethol | Manylion tarddiad y Cyfeirnod Grid Cenedlaethol - gweler y rhestr terminoleg | |
| **Math** | Term manwl a ddefnyddir o fewn *Brasddosbarth* i ddiffinio defnydd a swyddogaeth ased neu ddarganfyddiad hanesyddol – defnyddiwch y rhestr derminoleg https://heritagedata.org/live/schemes/10.htm | Term manwl a ddefnyddir o fewn *Brasddosbarth* i ddiffinio natur y gwaith a wneir – defnyddiwch y rhestr derminoleg https://heritagedata.org/live/schemes/17.html |
| **Cyfnod** | Disgrifiad o'r dosbarthiad cronolegol cyffredinol y mae'r ased neu ddarganfyddiad hanesyddol yn perthyn iddo – defnyddiwch y rhestr derminoleg https://heritagedata.org/live/schemes/11.html | |
| **Cyflwr Goroesi** | Cofnod o gyflwr ffisegol yr ased hanesyddol pan arsylwyd arno ddiwethaf, o'i gymharu â'i ffurf wreiddiol – defnyddiwch y rhestr derminoleg https://heritagedata.org/live/schemes/13.html | Dim yn berthnasol i'r cofnod o'r Digwyddiad |
| **Asesiad o'r Cyflwr** | Cofnod o gyflwr cyffredinol yr ased hanesyddol - defnyddiwch y rhestr derminoleg https://heritagedata.org/live/schemes/18.html | Dim yn berthnasol i'r cofnod o'r Digwyddiad |
| Disgrifiad o'r Cyflwr | Disgrifiad manwl o gyflwr yr heneb adeg y cofnodi. | Dim yn berthnasol i'r cofnod o'r Digwyddiad |
| **Brasddosbarth** | Y term dosbarthiad math hierarchaidd uchaf a ddefnyddir fel cymorthyn chwilio term - defnyddiwch y rhestr terminoleg berthnasol | |
| **Tystiolaeth** | Mae'n dangos y dystiolaeth ar gyfer ased hanesyddol yr adeg y gwnaed y cofnod - defnyddiwch y rhestr terminoleg https://heritagedata.org/live/schemes/19.html | Dim yn berthnasol i'r cofnod o'r Digwyddiad |
| **Blwyddyn** | Mae'n cofnodi'r flwyddyn y cofnodwyd cyflwr ased hanesyddol a thystiolaeth ohono. | Mae'n cofnodi'r flwyddyn y digwyddodd y Digwyddiad (gan gynnwys dyddiadau dechrau a gorffen) |
| Cyfeirnodau | Unrhyw gyfeirnodau a nodir yn y disgrifiad. A fyddech cystal â nodi cyfeiriadaeth lawn. | |
| **Ysgrifennir y Cofnod gan (unigolyn)** | Enw'r person sy'n creu'r cofnod. | |
| **Ysgrifennir y Cofnod gan (sefydliad)** | Enw'r sefydliad sy'n creu'r cofnod (os yn berthnasol) | |
| **Ysgrifennir y Cofnod ar** | Dyddiad ysgrifennu'r cofnod | |

**Ffigur 2. Gwybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer cofnodion asedau hanesyddol**

Mae darparu'r wybodaeth sylfaenol orfodol i'r CAHau yn galluogi'r staff i ymgorffori'r cofnodion yn unol â gofynion sylfaenol Safon MIDAS ar gyfer Data Treftadaeth y DU y mae'r CAHau yn glynu wrthi. Mae unrhyw wybodaeth ychwanegol ar gyfer gweddill y meysydd y gall cyfranwyr ei darparu yn gwella ehangder a dyfnder y cofnod ac yn arfer da.

Pan fo data'n cael ei fewngludo i'r CAH o ddataset a grëwyd gan drydydd parti, bydd y trydydd parti hwnnw'n cael ei gydnabod yn y record ganolog er mwyn sicrhau bod pob cyfraniad data'n cael ei gydnabod. Nodir materion cysylltiedig â hawlfraint isod.

### *Gwybodaeth ychwanegol lle mae ar gael/yn berthnasol*

Mae gan CAHau, mewn cydweithrediad â Gweithgor Safonau Data Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), ffyrdd safonol o gofnodi gwybodaeth ychwanegol, yn enwedig felly wybodaeth sydd a'i gwnelo â Bygwth Peryglu a Rheoli ased hanesyddol. Manylir ar rai o'r meysydd hyn yn y tabl isod a dylid cyfeirio at restri terminoleg sy'n berthnasol i Gymru. Am ragor o wybodaeth nad yw ei manylion yma a fyddech cystal â chysylltu â'r staff CAH perthnasol yn uniongyrchol i drafod anghenion.

| **Enw Maes CAH** | **Diffiniad o'r maes** (ar gyfer y meysydd sydd wedi'u lliwio'n biws, rhaid defnyddio'r termau rheoledig sydd ar gael yn heritagedata.org) |
|---|---|
| Perthynas y Croesgyfeirio | Mae'n nodi math y berthynas rhwng cofnodion - defnyddiwch y rhestr derminoleg sydd ar gael gan y CAHau |
| Adnodd y Croesgyfeirio | Mae'n nodi'r set ddata y mae'r rhif cyfeirnod yn cyfeirio ati - defnyddiwch y rhestr derminoleg sydd ar gael gan y CAHau |
| Rhif y Croesgyfeirio | Mae'n nodi rhif cyfeirnod y cofnod y mae'n ymwneud ag o. |
| Statws | Mae'n nodi'r statws sy'n gysylltiedig ag ased hanesyddol. |
| Cyfeirnod y Statws | Mae'n nodi'r rhif cyfeirnod sy'n gysylltiedig â statws. |
| Graddfa'r Statws | Mae'n nodi graddfa statws ased hanesyddol |
| Math y Bygythiad | Math y bygythiad sy'n wynebu ased hanesyddol - defnyddier y rhestr terminoleg https://heritagedata.org/live/schemes/12.html |
| Arwyddocâd y Bygythiad | Cofnodi arwyddocâd y bygythiad mewn perthynas â'i effaith ar ased hanesyddol- defnyddier y rhestr derminoleg https://heritagedata.org/live/schemes/15.html |
| Dyddiad Cofnodi'r Bygythiad | Y dyddiad y cofnodwyd y bygythiad |
| Ydyw'r Safle mewn Perygl | Ydyw'r ased hanesyddol mewn perygl - blwch gwirio √ / x |
| Lefel y Perygl | Lefel y perygl i ased hanesyddol https://heritagedata.org/live/schemes/25.html |
| Agored i Berygl | Pa mor agored i berygl yw ased hanesyddol - defnyddier y rhestr terminoleg https://heritagedata.org/live/schemes/24.html |
| Argymhellion ar gyfer Rheoli | Unrhyw argymhelliad a wneir ar gyfer rheoli ased hanesyddol |
| Sylwadau ar gyfer Rheoli | Gwybodaeth reoli ychwanegol nad yw'n argymhelliad |
| Categori'r Ased Hanesyddol (Categori Pwysigrwydd Heneb) | Pwysigrwydd/gwerth cymharol a roddir i ased hanesyddol adeg asesu – gweler y rhestr derminoleg https://heritagedata.org/live/schemes/14.html |
| Ymweliad safle gan | Enw'r unigolyn sy'n ymweld â'r safle |
| Dyddiad yr ymweliad safle | Dyddiad yr ymweliad |

**Ffigur 3. Gwybodaeth ychwanegol y gellir ei chofnodi ar gyfer asedau hanesyddol**

### 4.5 Ffotograffau

A fyddech cystal â thrafod â staff y CAH perthnasol y gofynion ar gyfer cyflwyno deunydd ffotograffig; efallai y bydd rhai'n fodlon cymryd y catalog cyfan, lle byddai eraill yn derbyn delweddau dethol yn unig. Oni bai fod y ffotograffau o ryw oedran penodol, delweddau digidol yn unig a gânt eu derbyn. Bydd CAHau unigol yn gweithredu polisi cadw/gwaredu ar gyfer unrhyw ddelweddau a gyflwynir er mwyn cadw'r wybodaeth fwyaf priodol i ddibenion lledaenu. O'r herwydd mae'n hanfodol bod gwaith archifo digidol llawn yn digwydd gyda'r CBHC ar gyfer pob prosiect (gweler isod i gael mwy o wybodaeth).

Mae'n bwysig fod ffotograffau digidol yn cael eu cymryd yn unol â safonau gofynnol ac y caiff metaddata penodol ei gofnodi ar gyfer pob delwedd. Lle bo modd, defnyddiwch ffurf TIFF ar gyfer creu delweddau. Pan nad oes modd defnyddio TIFF, argymhellir defnyddio ffeiliau JPEG o'r ansawdd uchaf (h.y. y cywasgiad isaf), oni bai bod modd creu ffeiliau RAW a'u troi yn rhai TIFF.

Rhaid i'r feddalwedd a ddefnyddir i brosesu'r delweddau sicrhau bod data exif gwreiddiol (gwybodaeth y mae'r camera'n ei chreu i gofnodi gosodiadau a dyddiad y ddelwedd) yn cael eu cadw. Dylid cyflwyno ffotograffau fel **ffeiliau delwedd unigol**, nid o fewn dogfen (e.e. ffeil Word neu PDF).

Bydd y CAHau yn derbyn delweddau lle mae'r metaddata wedi'u creu yn unol â chanllawiau Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru ar gyfer Archifau Digidol https://rcahmw.gov.uk/wp-content/uploads/2016/09/RCAHMW-Guidelines-for-Digital-Archives.pdf. Dylid cyflwyno metaddata (h.y. y catalog ffotograffig) i'r CAH gyda delweddau digidol, fel ffeil CSV neu Excel o ddewis.

Dylai'r metaddata gynnwys yr wybodaeth sylfaenol ganlynol ar gyfer delweddau digidol gwreiddiol:

- Dull Adnabod y Ddelwedd
- Y Prif Rif Cyfeiriol
- Prosiect
- Rhif Cyd-destun (os yw'n berthnasol)
- Enw'r Ased Hanesyddol
- Enw'r Nodwedd (os yw'n berthnasol)
- Dyddiad pryd tynnwyd y ffotograff
- Cyfeiriad y llun (nodwch a dynnwyd y llun "O" neu "Yn wynebu" cyfeiriad)
- Enw'r ffotograffydd
- Lleoliad y prif ffotograff / y ffotograff gwreiddiol
- Amodau Hawlfraint/Mynediad
- Cwblhawyd y cofnod gan
- Dyddiad cwblhau'r cofnod

Mae'r wybodaeth a ganlyn hefyd yn ddefnyddiol ei chofnodi:

- Disgrifiad byr o'r ffotograff.
- Y rheswm dros dynnu'r ffotograff, e.e. monitro cyflwr; cofnodi cloddiad archaeolegol; cyfoethogi CAH.

Os yw ffotograffiaeth draddodiadol (wlyb) wedi'i digido yn ffurfio rhan o gasgliad y prosiect, mae'n


bosib y bydd angen metaddata ychwanegol. Dylech drafod hyn â'r CAH perthnasol.

## 4.6 Polygon(au) Digwyddiadau

Os yw prosiect wedi defnyddio GIS, CAD neu feddalwedd lluniadu i greu darlun graffigol o ardal y prosiect, neu elfennau penodol sy'n ffurfio rhan o'r prosiect, dylid rhannu'r rhain â'r CAH perthnasol. Er enghraifft: ardal cloddiad neu arolwg; neu'r ardal ddatblygu ar gyfer asesiad wrth ddesg. Dylid darparu hwn ffurf cyffredin GIS neu CAD os yw'n bosib (megis ESRI shapefile neu dab MapInfo – ond gellir derbyn ffurfiau eraill). Dylai fod ganddo'r wybodaeth briodoledd a ddangosir yn Ffigur 4[11] (mae modd darparu ffeil dempled mewn nifer o ffurfiau ar gais):

| Enw'r Maes | Data Enghraifft 1 | Data Enghraifft 2 |
|---|---|---|
| Prif Rif Cyfeiriol y Digwyddiad | E001234 | |
| Rhif y Prosiect | A4000 | P1234 |
| Enw'r Prosiect | Arolwg Geoffisegol Castle Field | Trefynwy AWDD |
| Sefydliad | Geophysics R Us | Archaeology UK |
| Dyddiad | Mehefin 2015 | Awst 2014 |
| Ffynhonnell y Gwaith Digido | Grid Arolwg GPS | Map Digidol AO 2014 |
| Maint y Gwaith Digido | Amherthnasol | 1:12,500 |
| Disgrifid o'r ardal sydd wedi'i digido | Maint Ardal yr Arolwg | Maint yr Ardal Ddatblygu |

**Ffigur 4. Gwybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer darluniau gofodol o brosiectau archaeolegol**




**Ffigur 5. Enghraifft o bolygon digwyddiad yn dangos ardal arolwg geoffisegol ar gyfer Castle Field**


[11] Efallai y bydd metaddata ychwanegol yn ofynnol gan YAG – a fyddech cystal â thrafod hyn yn uniongyrchol gyda staff y CAH

## 4.7 Polygon(au) Asedau Hanesyddol

Os yw prosiect wedi defnyddio GIS, CAD neu feddalwedd luniadu i greu darlun graffigol o faint yr adnodd archaeolegol, ac mae meintiau asedau archaeolegol wedi cael eu creu, dylid rhannu'r rhain â'r CAH perthnasol. Dylid cyflwyno hyn ar ffurf GIS gyffredin os yw'n bosib (yn yr un modd â pholygonau digwyddiadau uchod) a dylai fod â'r wybodaeth briodoledd a ddangosir yn Ffigur 7[12] (mae modd cyflwyno ffeil dempled mewn nifer o ffurfiau ar gais). Os yw'n bosib, dylid darparu'r rhain heb fyffer. Os oes byffer, dylid nodi ei faint yn glir yn y metaddata.

| Enw'r Maes | Data Enghraifft 1 | Data Enghraifft 2 |
|---|---|---|
| Prif Rif Cyfeiriol neu Rif Adnabod y Safle | 01234w | SO12 |
| Sefydliad | Archaeology UK | Archaeology UK |
| Dyddiad | Mehefin 2015 | Awst 2014 |
| Ffynhonnell y Gwaith Digido | Map AO Argraffiad $1^{af}$ | Map Digidol AO |
| Dyddiad y Ffynhonnell | 1878 | 2014 |
| Maint y Gwaith Digido | 1:500 | 1:250 |
| Cynrychiolaeth Ddigido | Maint y safle gwreiddiol | Faint o weddillion sydd ar ôl |

**Ffigur 6. Gwybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer darluniau gofodol o asedau hanesyddol**




**Ffigur 7. Enghraifft o bolygon safle yn dangos ardal Deri-du House a Thir Amgaeëdig ar fap OS Argraffiad 1af**

12 Efallai y bydd metaddata ychwanegol yn ofynnol gan YAG – a fyddech cystal â thrafod hyn yn uniongyrchol gyda staff y CAH

## 4.8 Metaddata Ychwanegol

Dylid darparu metaddata ar gyfer cronfeydd data a ffeiliau GIS os yw'r set ddata'n fawr neu â strwythur neu gynnwys gwahanol i'r rhai a nodir uchod. Dylid creu'r metaddata hyn yn unol â chanllawiau CBHC ar gyfer Archifau Digidol[13] a chanllawiau eraill cysylltiedig. A fyddech cystal â chysylltu â staff y CAH perthnasol i drafod gofynion metaddata lle bo'n berthnasol.

**Sylwch nad yw CAHau yn storfeydd archifau achrededig. Dylai archifau ar gyfer prosiectau archaeolegol a gyflawnir yng Nghymru gael eu rhoi ar gadw gyda CBHC (archifau dogfennol neu ddigidol) a/neu yr amgueddfa berthnasol (archif arteffact/ecoffact). Gweler adran 5.2 am ragor o wybodaeth.**

## 4.9 Data sy'n addas i'w hychwanegu at y Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol

Lle cofnodwyd tystiolaeth enwau lleoedd hanesyddol fel rhan o brosiect archeolegol, dylid ei chofnodi mewn adroddiadau a gyflwynir i'r CAH perthnasol o dan teitl ar wahân yn y rhestr cynnwys a dylai gyd-fynd â'r safonau data a nodir yn Atodiad B.

Ewch i https://cbhc.gov.uk/darganfod/rhestr-o-enwau-lleoedd-hanesyddol/ i ganfod mwy o wybodaeth am y Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol statudol, a lunir ac a gynhelir gan CBHC ac a gyflwynir gan CAHau Cymru.

Dylech anfon unrhyw ymholiadau at enwaulleoeddhanesyddol@cbhc.gov.uk

[13] https://rcahmw.gov.uk/wp-content/uploads/2016/09/RCAHMW-Guidelines-for-Digital-Archives.pdf

# 5. Safonau Data Amgylchedd Hanesyddol a Thesawrysau i Gymru

Mae Gweithgor Safonau Data Amgylchedd Hanesyddol Cymru'n gweithio i greu, cynnal a datblygu safonau a gweithdrefnau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol ar gyfer creu, cynnal, storio ac adfer data sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol ledled Cymru a chael mynediad ato. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o Cadw, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, pedair Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cymru, Amgueddfa Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac eraill sy'n gyfrifol am setiau data cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Mae'r grŵp wedi llunio nifer o thesawrysau a rhestri terminoleg reoledig ar gyfer cofnodi gwahanol fathau o ddata cysylltiedig â'r amgylchedd hanesyddol. Mae'r rhain i'w cael ar y wefan ar gyfer y DU gyfan https://heritagedata.org/live/schemes.html lle gellir cael mynediad at eirfaoedd data cysylltiedig ar gyfer data treftadaeth ddiwylliannol. Dylai'r rhai sy'n creu data ddefnyddio'r thesawrysau a'r rhestri geiriau ar gyfer Cymru y cytunwyd arnynt wrth greu data er mwyn sicrhau y ceir cofnodion cyson a chynorthwyo gwaith adfer data o'r CAH a setiau data cysylltiedig eraill, megis Cofnod Henebion Cenedlaethol.


Mae'r CAHau yn glynu wrth nifer o safonau data a chanllawiau arferion da ar gyfer Cymru a'r DU, gan gynnwys:

- MIDAS UK
- UK GEMINI v2.3 Metadata for Spatial Data
- MIDAS XML Spatial Schema
- ADS GIS Guide to Best Practice
- Informing the Future of the Past (IFP) Guidelines for HERs.

Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yn https://archaeologydataservice.ac.uk/ifp/ a http://heritage-standards.org.uk/. Gall cyfranwyr sy'n darparu'r wybodaeth ofynnol helpu'r CAHau i gydymffurfio â'r safonau hyn yn fwy cyson drwy osgoi sefyllfaoedd lle ceir bylchau yn y cofnod, ac rydym yn gwerthfawrogi'r cyfraniad hwn.

## 5.1 Defnyddio heritagedata.org

I ddod o hyd i dermau penodol a ddefnyddir yng Nghymru wrth greu data ac ysgrifennu crynodebau, defnyddiwch y ffurflen chwilio yn https://heritagedata.org/live/search.php. Drwy ddefnyddio hon, gall defnyddwyr ddewis y thesawrws priodol (a ddisgrifir fel *Scheme* - chwiliwch drwy'r rhestr o dan *RCAHMW*) ac yna'r term priodol. I ddod o hyd i dermau Cymraeg, bydd angen clicio ar y term priodol yn y canlyniadau chwilio Saesneg ac edrych ar y *skos:prefLabel* o dan y Saesneg i weld y term Cymraeg cyfatebol. Gweler Ffigur 8 isod am fwy o arweiniad. Yn Saesneg yn unig y mae gwefan Heritage Data ar gael.




**Ffigur 8. Dull o chwilio am gyfieithiadau o dermau yn heritagedata.org**: 1. Dewiswch y thesawrws (*scheme*) priodol; 2. Cyflwynwch label sy'n berthnasol i'r term chwilio dan sylw ; 3. Dewiswch y term mwyaf priodol; 4. Chwiliwch am y cyfieithiad Cymraeg o dan y term Saesneg, o dan y label *skos:prefLabel* wedi ei ddilyn gan yr ôl-ddoddiad (cy).

## 5.2 Safonau Archifo

Fel y nodir uchod, nid yw'r CAHau yn archifau ffurfiol ac ni allant dderbyn deunyddiau archif. Dylid paratoi archifau archaeolegol yn unol â'r *Safon Genedlaethol a Chanllawiau Arfer Gorau ar gyfer Casglu ac Adneuo Archifau Archaeolegol yng Nghymru* (gweler http://www.welshmuseumsfederation.org/cy/newyddion/adnoddau-hafan/Casgliadau/y-safon-genedlaethol-a-chanllawiau-arfer-gorau-ar-gyfer-casglu-ac-adneuo-archifau-archaeolegol-yng-nghymru-2017.html) a'r safon a chanllawiau ar gyfer creu, casglu, trosglwyddo ac adneuo archifau archaeolegol CIfA (gweler: https://www.archaeologists.net/sites/default/files/CIFAS%26GArchives_4.pdf) a'u rhoi ar gadw gyda'r gadwrfa achredig briodol

Dylid paratoi archifau digidol yn unol â chanllawiau CBHC y cyfeirir atynt uchod[14] , a'u rhoi ar gadw gyda'r Comisiwn yn uniongyrchol. Mae'n bosib y bydd gofyn cyflwyno elfennau o'r archif digidol i'r CAHau. Gall CAHau unigol roi cyngor ar hyn.

[14] https://rcahmw.gov.uk/wp-content/uploads/2016/09/RCAHMW-Guidelines-for-Digital-Archives.pdf

# 6. Cytundeb a Hawlfraint Data

## 6.1 Atgynhyrchu data dan Hawlfraint CAH

Lle mae adroddiad yn cynnwys neu'n atgynhyrchu gwybodaeth o'r CAH, dylai'r gydnabyddiaeth a'r datganiad hawlfraint perthnasol fod wedi'i nodi yn yr adroddiad, fel a ganlyn:

***Yn tarddu o'r wybodaeth a gedwir gan hawlfraint Ymddiriedolaeth Elusennol CAH YAMG. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys deunydd sy'n hawlfraint i Ymddiriedolaeth Elusennol CAH YAMG a hawlfreintiau partion eraill gan gynnwys hawlfraint y Goron lle nodir.***
***Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys deunydd sy'n hawlfraint i Ymddiriedolaeth Elusennol CAH YACP (flwyddyn).***
***Yn tarddu o'r wybodaeth a gedwir gan hawlfraint i Ymddiriedolaeth Elusennol CAH YAG.***
***Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys deunydd sy'n hawlfraint i Ymddiriedolaeth Elusennol CAH YAD.***

Argymhella'r CAH gyfeirio Prif Rifau Cyfeiriol mewn adroddiadau a chyhoeddiadau fel a ganlyn:
**HER PRN CPAT1234**
**HER PRN DAT1234**
***HER PRN GGAT01234w***
**HER PRN GAT1234**

Dylech roi esboniad o unrhyw fyrfoddau CAU/PRN a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad.

## 6.2 Cytundeb Data

Dylai'r rhai hynny sy'n cyflwyno data sicrhau bod ganddynt yr hawliau (hawlfraint, IPR, hawl bas data) i gyflwyno data i'r CAH. Lle nad y cyflenwr yw deilydd yr hawliau yna dylid cyflwyno dogfennau ategol yn nodi manylion deilydd (deiliaid) yr hawliau, yn cynnwys unrhyw ganiatâd a roddir neu gyfyngiadau wrth ddefnyddio/dosbarthu data.

Bydd cyfranwyr CAH yn cael y cyfle i lofnodi Cytundeb Cyflwyno Data er mwyn nodi sut y caiff eu gwybodaeth ei defnyddio. Nid yw'r CAH yn trosglwyddo unrhyw hawliau a phery'r holl hawliau gyda deilydd (deiliaid) gwreiddiol yr hawliau. Dylid cwblhau Ffurflen Eithrio Data os oes Cytundeb Cyflwyno Data cyfredol eisoes ar waith, ond nid yw gwybodaeth sydd newydd ei roi i gadw yn dod dan y cytundeb hwn.

Mae'n bosib y bydd cyfraniadau i'r CAH (neu elfennau ohonynt) yn dod o dan Hawlfraint y Goron er mwyn ffurfio rhan o gynnwys statudol CAH a ddosberthir drwy *Archwilio.* Gellir gwneud cytundebau gyda Llywodraeth Cymru i'r perwyl hwn, fel y corff sy'n gyfrifol am gyflawni dyletswyddau statudol y CAHau. Gweler https://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/4/part/4/crossheading/historic-environment-records a https://cadw.gov.wales/advice-support/placemaking/historic-environment-records i gael mwy o wybodaeth am y CAHau statudol.

## 6.3 Atgynhyrchu data nad yw dan Hawlfraint CAH

Yn yr achos o ddosbarthu deunydd hawlfraint 3ydd parti (h.y. deunydd nad yw'n hawlfraint Ymddiriedolaeth Elusennol CAH Ymddiriedolaeth Archaeolegol berthnasol Cymru) gan y CAH, bydd y datganiad a ganlyn ynghlwm wrth y deunydd:

*Rhyddhau Gwybodaeth Trydydd Parti*

*Hawlfraint trydydd person yw'r wybodaeth a gyflwynir. Rhoddwyd caniatâd i'r CAH gyflwyno'r deunydd hwn, fodd bynnag, mae'r deunydd hwn wedi'i fwriadu ar gyfer gwybodaeth a gwaith ymchwil yn unig. Ni chaniateir ei drosglwyddo i drydydd parti, ei atgynhyrchu na'i gyhoeddi heb gael caniatâd y ffynhonnell wreiddiol.*

*Mae'r deunydd a ganlyn wedi'i gyflwyno dan delerau'r rhybudd uchod.*

| *Deunydd* | *Ffynhonnell Wreiddiol* |
|---|---|

## 7. Manylion Cyswllt

Cysylltwch â'r CAH perthnasol os oes gennych gwestiynau neu os ydych yn dymuno trafod gofynion data.

| YACP | YAD | YAMG | YAG |
|---|---|---|---|
| her@cpat.org.uk | info@dyfedarchaeology.org.uk | her@ggat.org.uk | her@heneb.co.uk |
| 01938 553670 | 01558 823121 | 01792 634225 | 01248 352535 |

## 8. Rhestr termau a chysyniadau

| | |
|---|---|
| Archwilio | Mae Archwilio yn rhoi mynediad i'r cyhoedd at y Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol (CAHau) ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'n cynnwys (neu'n rhoi mynediad at) wybodaeth ar ddegau o filoedd o safleoedd hanesyddol neu waith ymchwiliol yng Nghymru. Cynhelir y CAHau ar ran Gweinidogion Cymru gan y pedair ymddiriedolaeth archaeolegol ranbarthol yng Nghymru ac i gydymffurfio â gofynion Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016. Gweler www.archwilio.org.uk |
| Ased Hanesyddol | Safle, adeilad, gwrthrych neu nodwedd arall a gofnodwyd mewn cofnod amgylchedd hanesyddol neu adnodd arall tebyg. |
| Cadw | Gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru yw Cadw, sy'n gweithio i sicrhau bod amgylchedd hanesyddol Cymru yn hygyrch ac yn cael ei ddiogelu'n dda (gweler https://cadw.gov.wales) |
| Cofnod Amgylchedd Hanesyddol (CAH) | Y CAHau yw'r brif ffynhonnell ranbarthol o wybodaeth am yr amgylchedd hanesyddol. Maent yn systemau gwybodaeth cymhleth, sy'n cynnwys cronfa ddata gyfrifiadurol berthynol a System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) sy'n cael eu diweddaru'n rheolaidd. I gefnogi'r adnoddau digidol, ceir casgliadau digidol a chorfforol ychwanegol a gedwir ym mhob un o Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru. Mae'r CAHau yn cynnwys gwybodaeth ynghylch pob agwedd ar weithgarwch dynol yn y dirwedd, o'r cyfnod cynhanesyddol cynharaf hyd heddiw, yn ymwneud ag ardaloedd, digwyddiadau gwrthrychau a safleoedd. Mae gan y CAHau fynediad at ddata a gedwir gan ddarparwyr eraill megis Cadw, CBHC, Amgueddfa Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol, neu maent yn cysylltu â'r data hyn.<br>Cofnodion Safleoedd a Henebion oedd yr enw blaenorol ar y CAHau, ond daethant i gael eu galw'n Gofnodion Amgylchedd Hanesyddol i adlewyrchu'r cwmpas ehangach o wybodaeth sydd ar gael a'r ffaith fod y CAHau yn cael eu cydnabod yn allanol i fod yn cyrraedd y meincnodau CAH cam 1 a ddisgrifir yn nogfen English Heritage/ALGAO 2002 *Historic Environment Records: Benchmarks for Good Practice* a addaswyd i gael ei defnyddio yng Nghymru. |
| Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC) | CBHC sy'n curadu'r Cofnod Henebion Cenedlaethol ac Archif Archaeolegol Cenedlaethol Cymru (gweler https://rcahmw.gov.uk/home/). Byddant yn gweithio ar brosiectau thematig ac yn cynnig amrywiaeth o arbenigedd, gan gynnwys arolygon arbenigol. Mae CBHC yn monitro rhaglenni gwaith CAH ar ran Cadw. |
| CSV | Mae CSV yn golygu gwerthoedd wedi'u gwahanu gan goma (*comma-separated values)* ac mae'n ffeil destun amffinydd sy'n defnyddio coma i wahanu gwerthoedd (gweler https://en.wikipedia.org/wiki/Comma-separated_values) |
| Digwyddiad | Ymchwiliad i un agwedd neu fwy o'r amgylchedd hanesyddol (gweler nodyn 5 ar dudalen 9) |
| Gweithgor Safonau Data ar yr Amgylchedd | Caiff y Gweithgor Safonau Data ar yr Amgylchedd Hanesyddol ei gadeirio gan CBHC a bydd yn cwrdd yn rheolaidd i drafod a datblygu safonau data. Mae'r sefydliadau a gynrychiolir yn cynnwys CBHC, y pedair ymddiriedolaeth |

| | |
|---|---|
| Hanesyddol | archaeolegol Cymru, Cadw, Amgueddfa Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ac eraill sy'n ymwneud â chreu neu reoli data – megis cynrychiolwyr o'r Parciau Cenedlaethol. |
| HEROS | System Agored Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol; y system rheoli data a ddefnyddir gan Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru i gael mynediad at eu data CAH ar asedau treftadaeth. |
| JPEG | Delwedd ddigidol 'Joint Photographic Experts Group'. Y fformat y mae'r mwyafrif o gamerâu digidol yn ei gynhyrchu. Mae'r math hwn o ffeil yn colli ansawdd bob tro mae'n cael ei arbed. |
| RAW | Delwedd ddigidol grai (h.y. heb ei phrosesu). Mae llawer o gamerâu'n gallu cymryd ffeiliau RAW, ond fel arfer mae'r gallu i agor y ffeiliau'n dibynnu ar wneuthuriad y camera. Argymhellir eu bod yn cael eu cadw fel ffeiliau TIFF at ddibenion archifo. Weithiau cyfeirir at ffeiliau RAW gan ddefnyddio enw perchnogol sy'n cyfeirio at feddalwedd/cynhyrchwr y camera a ddefnyddiwyd i greu'r ddelwedd, e.e. mae ffeiliau Nikon yn creu ffeiliau RAW sydd ag enw ffeil yn gorffen gyda .NEF |
| System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) | Mae System Gwybodaeth Ddaearyddol wedi'i chynllunio i greu, dangos, storio a dadansoddi mapiadau digidol a gwybodaeth ofodol. |
| TIFF | Delwedd ddigidol 'Tagged Image File Format'. Y math o ddelwedd sy'n cael ei ystyried yn fath safonol ar gyfer archifo, gan nad yw'n colli ansawdd wrth ei gadw. |
| Y Cofnod Henebion Cenedlaethol | Caiff y Cofnod Henebion Cenedlaethol ei reoli gan CBHC (gweler isod) ar mae ar gael ar-lein yn https://www.coflein.gov.uk/ |
| Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys: | Un o'r pedair ymddiriedolaeth archaeolegol yng Nghymru (gweler www.cpat.org.uk) |
| Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed | Un o'r pedair ymddiriedolaeth archaeolegol yng Nghymru (gweler https://www.dyfedarchaeology.org.uk/) |
| Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd | Un o'r pedair ymddiriedolaeth archaeolegol yng Nghymru (gweler www.heneb.co.uk) |
| Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg Gwent | Un o'r pedair ymddiriedolaeth archaeolegol yng Nghymru (gweler www.ggat.org.uk) |
| Ymddiriedolaeth Elusennol CAH | Caiff pob CAH yng Nghymru ei chadw mewn ymddiriedolaeth elusennol ar wahân a'i rheoli gan y rhiant- Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cymru. |
| Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru | Ceir pedair ymddiriedolaeth archaeolegol yng Nghymru. O ran eu hardaloedd daearyddol, gyda'i gilydd maent yn gwasanaethu Cymru gyfan. Mae pob ymddiriedolaeth yn cael rhywfaint o gymorth grant gan Cadw ac yn cynnwys: adran rheoli treftadaeth sy'n rheoli'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol rhanbarthol ac yn darparu cyngor a gwybodaeth i amrywiaeth eang o unigolion a sefydliadau, gan gynnwys llywodraeth leol a chenedlaethol; ac adran gwasanaethau masnachol sy'n tendro am brosiectau archaeolegol. |

## Atodiad A – Ffurflen Gyflwyno Gwybodaeth CAH CYMRU

## Ffurflen Cyflwyno Gwybodaeth CAH CYMRU

<table>
<tr><td colspan="3">Mae'r wybodaeth a gyflwynir ar gyfer ☐ cofnod sydd eisoes yn bodoli ☐ i gofnodi ased hanesyddol newydd.<br>Ar gyfer safle sydd eisoes yn bodoli, a fyddech cystal â nodi gwybodaeth lle mae angen newid/diweddaru cofnodion yn unig.</td></tr>
<tr><td colspan="3">MANYLION O'R ASED HANESYDDOL</td></tr>
<tr><td>Prif Rif Cyfeiriol/Rhif Adnabod:</td><td>Enw'r Safle</td><td>Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cymru</td></tr>
<tr><td colspan="3">LLEOLIAD YR ASED HANESYDDOL (os yw'n gofnod newydd neu anghywir)<br>Os oes modd, marciwch leoliad y safle ar fap AS a rhoi copi ynghlwm wrth y ffurflen hon.</td></tr>
<tr><td>Cyfeirnod Grid Cyffredinol (CGC)</td><td></td><td>CGC wedi'i gymryd o fap? ☐<br>GPS? ☐</td></tr>
<tr><td colspan="3">Defnyddiwch ganol yr ased hanesyddol os oes modd, fel arall nodwch o ble mae'r cyfeirnod grid wedi'i gymryd:</td></tr>
<tr><td colspan="3"></td></tr>
<tr><td colspan="3">DISGRIFIAD O'R ASED HANESYDDOL<br>Bydd y disgrifiad yn cynorthwyo i adnabod math, swyddogaeth a dyddiad y safle</td></tr>
<tr><td colspan="3">Disgrifiad llawn (gan gynnwys maint bras y safle os oes modd)<br><br>Parhewch ar dudalen arall os oes rhaid</td></tr>
<tr><td colspan="3">Tystiolaeth: (defnyddiwch dermau safonol CAH*)</td></tr>
<tr><td colspan="3">Cyfnod amcangyfrifedig: (defnyddiwch dermau safonol CAH*)</td></tr>
<tr><td colspan="3">Math y safle: (defnyddiwch dermau safonol CAH*)</td></tr>
<tr><td colspan="3">CYFLWR YR ASED HANESYDDOL<br>Bydd y wybodaeth hon yn cynorthwyo i asesu cyflwr y safle a bygythiadau i'w oroesiad</td></tr>
<tr><td colspan="3">Cyflwr Goroesi: (defnyddiwch dermau safonol CAH*)</td></tr>
<tr><td colspan="3">Disgrifiad o'r cyflwr: (yn cynnwys maint y goroesiad a'r difrod)</td></tr>
<tr><td colspan="3">Unrhyw fygythiadau i'r ased hanesyddol? (a fyddech cystal â dewis termau safonol CAH* a chynnwys disgrifiadau)</td></tr>
<tr><td colspan="3">GWYBODAETH YCHWANEGOL</td></tr>
<tr><td colspan="3">Ydych chi wedi tynnu lluniau? Wedi cynhyrchu lluniadau? Beth yw'r ffynonellau ar gyfer y wybodaeth a gyflwynir ar y ffurflen hon?</td></tr>
<tr><td colspan="3">EICH MANYLION</td></tr>
<tr><td>Enw</td><td>Prosiect (lle bo'n berthnasol)</td><td>Dyddiad y cofnod</td></tr>
</table>

## Atodiad B – Data sy'n addas i'w hychwanegu at y Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol

Lle cofnodwyd tystiolaeth enwau lleoedd hanesyddol fel rhan o brosiect archeolegol, dylid ei chofnodi mewn adroddiadau a gyflwynir i'r CAH perthnasol o dan teitl ar wahân yn y rhestr cynnwys a dylai gyd-fynd â'r safonau data isod.

Ewch i https://cbhc.gov.uk/darganfod/rhestr-o-enwau-lleoedd-hanesyddol/ i ganfod mwy o wybodaeth am y Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol statudol, a lunir ac a gynhelir gan CBHC ac a gyflwynir gan CAHau Cymru.

Mae meysydd gorfodol wedi'u **hamlygu**. Dynoda porffor derminoleg a reolir.

| Maes | Disgrifiad |
|---|---|
| UID_Allanol | UID allanol a ddefnyddiwyd gan 3ydd parti wrth gasglu'r data |
| **Enw a gofnodwyd** | Dyma'r enw lle ei hun *e.e.* Ty'n y Cwm. Sicrhewch y sillafir yr enw yn union fel ag yr ymddengys. |
| **Cyfnod** | Ychwanegwch y cyfnod priodol i'r defnydd hwn o'r enw gan ddefnyddio'r derminoleg Gofnod a gytunwyd. https://heritagedata.org/live/schemes/11.html<br>Mae'n debyg mai'r isod yw'r rhai mwyaf defnyddiol ar gyfer y data hyn: Canoloesol; Ôl-ganoloesol; Modern; 16fed Ganrif; 17fed Ganrif; 18fed Ganrif; 19fed Ganrif; 20fed Ganrif; 21ain Ganrif. |
| Disgrifiad Cyfnod | Cofnodwch ddyddiadau hysbys neu amcangyfrifedig, neu syniad o'r ganrif y'i defnyddiwyd ynddi os nad yw ar gael yn y rhestr cyfnodau uchod. Os na ellir ei briodoli i flwyddyn benodol (hynny yw, os nad yw'r ffynhonnell yn cofnodi hynny), ysgrifenner y flwyddyn gyfredol. |
| **Blwyddyn Gynharaf** | Y flwyddyn gynharaf y gellir dyddio'r enw iddi, e.e. 1600. |
| Nodiadau Cyhoeddus | Unrhyw nodiadau perthnasol neu wybodaeth ddiddorol sy'n ymwneud â'r enw y gellir eu rhyddhau i'r cyhoedd. |
| **Easting** | Easting (cyfesuryn X ) a gofnodir mewn tafluniad OSGB36 |
| **Northing** | Northing (cyfesuryn Y ) a gofnodir mewn tafluniad OSGB36 |
| **Cywirdeb NGR** | Cofnodwch gywirdeb leoliad mewn medrau gan ddefnyddio terminoleg HEDS a gytunwyd. https://heritagedata.org/live/schemes/21/concepts/508307.html |
| **Disgrifiad Cywirdeb NGR** | Cofnodwch gywirdeb yr NGR gan ddefnyddio terminoleg HEDS a gytunwyd. https://heritagedata.org/live/schemes/20/concepts/508307.html |
| **Prif Ffynhonnell** | Y bryf ffynhonnell a ddefnyddiwyd wrth greu'r cofnod, *e.e.* Map AO 1900, Llawysgrif |
| Union gyfeiriad y brif ffynhonnell | Tudalen neu gyfeiriad arall, *e.e.* t21 |
| Ail Ffynhonnell | Enw'r ail ffynhonnell a ddefnyddiwyd wrth greu'r cofnod, gan gynnwys prosiectau *e.e. Cymru 1900* |
| Union gyfeiriad yr ail ffunhonnell | Tudalen neu gyfeiriad arall, *e.e.* t21 |
| **Math o Enw** | Y math o le y mae'r enw'n perthyn iddo. Defnyddiwch derminoleg a reolir:<br>– Annedd (unrhyw annedd, o adeilad unigol i anedd fawr ddinesig) |

| | |
|---|---|
| | – Cae<br>– Nodwedd dopograffyddol<br>– Plwyf Sifil<br>– Sir Hanesyddol<br>– Ardal Weinyddol Arall<br>– Di-ddosbarth (*h.y.* unrhyw beth nad yw'n cyd-fynd â'r categorïau eraill, megis pontydd)<br>– Anhysbys |
| Prif Enw | Mae hyn yn cofnodi enwau trefi a phentrefi. Os yw'r enw a gofnodwyd yn amrywiad ar yr enw safonol, rhowch yr enw safonol yn y blwch hwn, *e.e.* os mai 'Stiniog' yw'r Enw a Gofnodwyd, rhodder 'Blaenau Ffestiniog' yn y blwch. Fel arall gadewch y blwch yma'n wag. |
| Nodiadau Preifat | Unrhyw beth y dylem wybod nad ydyw o ddiddordeb i'r cyhoedd/ neu na fyddai'n addas i'w gylchredeg yn gyhoeddus. |
| **Cyfrannwr (unigolyn)** | Enw'r cyfrannwr |
| **Cyfrannwr (sefydliad)** | Enw sefydliad y cyfrannwr |
| **Dyddiad y cyfranniad** | Dyddiad y cyfrannu |
| Cyfeirnod prosiect allannol | Os yn berthnasol, cofnodwch rif gyfeirnod y prosiect y cyfrannwyd yr wybodaeth hon ganddo. |

Dylech anfon unrhyw ymholiadau at enwaulleoeddhanesyddol@cbhc.gov.uk